

CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Sir a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun LL15 1YN a thrwy gynhadledd fideo Dydd Mawrth, 13 Mai 2025 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Michelle Blakeley-Walker, Jeanette Chamberlain-Jones, Ellie Chard, Kelly Clewett, Karen Edwards, Pauline Edwards, Gwyneth Ellis, James Elson, Chris Evans, Hugh Evans, Justine Evans, Bobby Feeley (Is-Gadeirydd), Elen Heaton, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Hogg, Carol Holliday, Alan Hughes, Alan James, Brian Jones, Delyth Jones, Paul Keddie, Diane King, Julie Matthews, James May, Jason McLellan, Barry Mellor, Terry Mendies, Merfyn Parry, Will Price, Arwel Roberts (Cadeirydd), Anton Sampson, Gareth Sandilands, Peter Scott, Rhys Thomas, Andrea Tomlin, Cheryl Williams, Eryl Williams, Huw Williams, Emrys Wynne a/ac Mark Young

HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (GB), Cyfarwyddwr Corfforaethol Llywodraethu a Busnes / Swyddog Monitro (GW), Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol - Pobl (CR), Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd / Cofnodwr (SP); Swyddog Pwyllgorau / Gweinyddwr (SJ)

TEYRNGED I'R CYN GYNGHORYDD HUGH IRVING

Cyfeiriodd y Cadeirydd, y Cyngorydd Peter Scott, at farwolaeth ddiweddar y cyngorydd sir Hugh Irving a gwahoddodd arweinwyr y grwpiau gwleidyddol i annerch y Cyngor.

Talodd Arweinwyr y Grwpiau eu teyrngedau i ymroddiad hirsefydlog a gwaith caled y Cyngorydd Irving i'w gymuned ym Mhrestatyn ac i Sir Ddinbych, am ei effeithiolrwydd fel cyngorydd, ac am ymddwyn mewn modd parchus a chwrtais bob amser.

Safodd y Cyngor mewn tawelwch fel arwydd o barch.

1 YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Joan Butterfield, Ann Davies, Jon Harland, Geraint Lloyd-Williams, Raj Metri, David Williams ac Elfed Williams.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorwyr Hugh Evans, Merfyn Parry, Huw Williams ac Eryl Williams gysylltiad personol ag eitem 11, Rhybudd o Gynnig, mewn perthynas â'u cysylltiad â'r diwydiant ffermio.

3 DYDDIADUR Y CADEIRYDD

Tynnodd y Cadeirydd sylw at rai digwyddiadau dinesig yr oedd wedi ymgymryd â nhw yn ystod ei gyfnod fel Cadeirydd y Cyngor.

4 PENODI CADEIRYDD Y CYNGOR

Diolchodd y Cadeirydd sy'n gadael, y Cynghorydd Peter Scott, i'w ferch Elaine Morris a'i wyresau Elizabeth a Faye Williams a oedd wedi bod yn gymheiriaid iddo ar ei ddyletswyddau dinesig. Cyflwynwyd blodau i ddiolch i'r cymheiriaid a'r Rheolwr Cymorth Busnes, Eleri Woolford, am ei gwaith yn trefnu'r rhaglen ddigwyddiadau ac ymweliadau dinesig.

Cyflwynodd y Cadeirydd siec o'i gronfa elusennol i Dr Ghazala, Rheolwr Codi Arian i Hosbis Sant Cyndeyrn. Diolchodd Dr Ghazala i'r Cadeirydd am y rhodd ac amlinellodd y gwasanaethau a ddarperir gan yr hosbis a'r ymrwymiad ariannol sy'n angenrheidiol i gefnogi gwaith yr hosbis. Gwahoddodd Dr Ghazala aelodau'r Cyngor i ymweld â'r hosbis.

Cyhoeddodd y Cadeirydd bod ei gronfa elusennol wedi codi arian trwy gyngherddau elusennol ar gyfer elusen y lluoedd arfog. Bydd yr elusen sy'n derbyn yr arian yn cael eu hysbysu'n fuan.

Gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau ar gyfer ymgeiswyr ar gyfer rôl Cadeirydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn y cyngor 2025 – 2026.

Cynigodd y Cynghorydd Delyth Jones y Cynghorydd Arwel Roberts i fod yn Gadeirydd nesaf y Cyngor, ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Jason McLellan.

Ni chafwyd unrhyw enwebiadau pellach a chadarnhaodd yr aelodau a oedd yn bresennol eu cymeradwyaeth.

Talodd y Cadeirydd newydd, y Cynghorydd Roberts, deyrnged i'r Cadeirydd sy'n gadael, y Cynghorydd Scott, am ei gyfnod llwyddiannus a'i synnwyr digrifwch a oedd wedi helpu'r Cyngor i gyd-drafod materion anodd yn ystod ei gyfnod estynedig yn y swydd.

Dywedodd y Cadeirydd newydd mai ei gymar fyddai ei wraig, Awen Roberts. Byddai'n codi arian at elusen Hosbis Sant Cyndeyrn ac at gefnogi teuluoedd a fyddai fel arall yn cael anhawster ariannol cymryd rhan mewn gwर्सylloedd a gweithgareddau'r Urdd.

PENDERFYNWYD - ethol y Cynghorydd Arwel Roberts yn Gadeirydd Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer blwyddyn y cyngor 2025-2026.

5 PENODI IS-GADEIRYDD Y CYNGOR

Gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau ar gyfer ymgeiswyr ar gyfer rôl Is-gadeirydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn y cyngor 2025 – 2026.

Cynigodd y Cynghorydd Hugh Evans y Cynghorydd Bobby Feeley i fod yn Is-gadeirydd nesaf y Cyngor, ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Andrea Tomlin.

Ni chafwyd unrhyw enwebiadau pellach a chadarnhaodd yr aelodau a oedd yn bresennol eu cymeradwyaeth.

Diolchodd Is-gadeirydd newydd y Cyngor, y Cynghorydd Feeley, i'r Cadeirydd blaenorol, y Cynghorydd Scott a dymunodd y gorau i'r Cadeirydd newydd, y Cynghorydd Roberts. Cymar y Cynghorydd Feeley fyddai ei gŵr.

PENDERFYNWYD - ethol y Cynghorydd Bobby Feeley yn Is-gadeirydd Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer blwyddyn y cyngor 2025-2026.

Cyhoeddodd y Cadeirydd y byddai egwyl fer.

6 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Cytunodd y Cadeirydd i gais gan Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd McLellan, i dalu teyrnged i'r cerddor a'r codwr arian elusennol Mike Peters, a fu farw'n ddiweddar.

Talodd y Cynghorydd McLellan deyrnged i gyflawniadau cerddorol byd-eang Mike Peters a nododd sut yr oedd Gogledd Cymru, a Dyserth, Prestatyn a'r Rhyl yn enwedig (lle rhoddodd Mike Peters ei berfformiadau cerddorol byw cyntaf), bob amser yn ganolog iddo. Nododd y Cynghorydd McLellan gyfraniadau Mr Peters at fywyd, iaith a diwylliant Cymru ac at ei waith codi arian elusennol ar gyfer Sefydliad Love Hope Strength, gyda'r nod o godi arian ac ymwybyddiaeth er budd pobl â chanser a lwcemia.

Mynegodd y Cynghorydd McLellan ei gydymdeimlad â gwraig Mr Peters, Jules, a'r teulu.

Cymeradwyodd y Cadeirydd sylwadau'r Arweinydd.

7 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 20 Chwefror 2025 a chyfarfod arbennig y Cyngor a gynhaliwyd ar 26 Mawrth 2025.

Materion yn codi: Cyfarfod Arbennig y Cyngor - 26 Mawrth 2025

Cyfeiriodd y Cynghorydd Mendies at awgrym yr oedd wedi'i wneud yn y cyfarfod arbennig y gallai fod wedi bod yn ddoeth i'r cyngor sir fenthycu'r cyllid ar gyfer cynllun busnes arfaethedig Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig (HSDd), ac awgrymodd gwpl o gwmnïau ariannol neu fasnachol posibl fel Shawbrook a Bluestone. Dywedodd y Cynghorydd Mendies fod ymateb a wnaed gan Reolwr Gyfarwyddwr HSDd yn ystod y cyfarfod, sef bod Bluestone yn gwmni prydlesu, yn anghywir, a bod Bluestone mewn gwirionedd yn gwmni masnachol. Nododd y Cynghorydd Mendies nad oedd y drafodaeth hon wedi'i chynnwys yn y cofnodion.

Dywedodd y Swyddog Monitro nad oedd y cofnodion yn gofnod gair am air o'r trafodion ond y gellid nodi'r pwyntiau hyn pe bai'r aelodau yn dymuno i'r cofnodion gyfeirio atynt.

Dywedodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts ei fod o'r farn nad oedd y cofnodion yn adlewyrchu'n ddigonol ochrau cadarnhaol y ddadl, megis y trefniadau ar gyfer cyfranddalwyr lle byddai cyfranddaliadau'n aros gyda'r cwmni pe bai cyfranddaliwr yn gadael y cwmni. Dywedodd nad gwerthu HSDd oedd y penderfyniad a wnaed ac yn hytrach ei fod yn benderfyniad 'mewn egwyddor', a theimlai ei bod yn bwysig nodi hynny yn y cofnodion er gwybodaeth i'r cyhoedd oherwydd bod y drafodaeth ei hun wedi digwydd yn Rhan 2 (sesiwn gaeedig). Cyfeiriodd hefyd at y gefnogaeth a roddodd yr Arweinydd (yn amodol ar drafodaethau undebau llafur), y tîm uwch arweinyddiaeth a mwyafrif yr aelodau i'r cynigion, ond condemniodd y Cynghorydd Hilditch-Roberts rannu gwybodaeth gyfrinachol yn y cyfryngau a dywedodd fod hynny wedi arwain at golli ymddiriedaeth yn y Cynghorwyr a niweidio enw da'r Cyngor. Ychwanegodd y byddai'n fuddiol nodi bod y Cyngor wedi arfer rheoli contractau drwy gytundebau lefel gwasanaeth gan fod hyn wedi bod yn rhan o'r ddadl.

Nododd y Swyddog Monitro y pwyntiau a wnaed a dywedodd fod y drafodaeth wedi bod yn un anodd ei chofnodi oherwydd ei bod yn cwmpasu trafodaeth Rhan 2, felly'r nod oedd bod mor dryloyw â phosibl i'r cyhoedd, heb ddatgelu gwybodaeth eithriedig. Bu'n rhaid darparu cofnod mwy llawn nag oedd yn arferol ar gyfer trafodaeth Rhan 2 er mwyn cyflawni'r cydbwysedd hwn.

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd McLellan, at ei ymholiad ynghylch y rheswm pam roedd aelod o staff, a oedd hefyd yn gynrychiolydd undeb llafur Unsain, wedi teimlo'r angen i adael yr ystafell gyfarfod unwaith y symudodd y cyfarfod i Ran 2. Teimlai'r Arweinydd y dylai'r drafodaeth a'r ffaith y byddai'n well ganddo petai'r aelod staff wedi aros yn y cyfarfod, fod wedi'u nodi gan eu bod yn gysylltiedig â'r pwyntiau a wnaeth am bwysigrwydd telerau ac amodau staff ac ymgysylltu â'r undebau llafur.

Wrth ymateb i ymholiadau gan y Cynghorydd Merfyn Parry, eglurodd y Swyddog Monitro, hyd yn oed yn ystod trafodaeth Rhan 2, y dylai'r Cyngor fod mor dryloyw â phosibl ynghylch y trafodion heb ddatgelu gwybodaeth eithriedig. O ran pleidlais wedi'i chofnodi, nid oedd y ffordd y pleidleisiodd yr aelodau yn wybodaeth eithriedig felly pe bai aelodau'n penderfynu cael pleidlais wedi'i chofnodi yn ystod eitem Rhan 2, byddai'n rhaid cofnodi'r ffordd y pleidleisiodd pob aelod yn y cofnodion. O ran datgelu gwybodaeth i'r cyhoedd ar ôl y cyfarfod, roedd y Swyddog Monitro o'r farn nad oedd o gymorth i wybodaeth a rennir fel un gyfrinachol gael ei rhyddhau heb awdurdod priodol gan y gallai hyn fod yn niweidiol i'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio. Eglurwyd na fyddai popeth mewn trafodaeth Rhan 2 yn gyfrinachol, ac efallai na fydd gwybodaeth sy'n gyfrinachol heddiw yn gyfrinachol yn y dyfodol, felly roedd yn bwysig bod pobl yn gwirio cyn rhyddhau gwybodaeth a rennir o dan Ran 2.

Gofynnodd y Cynghorydd Hilditch-Roberts am farn y Swyddog Monitro o ran p'un a oedd gwybodaeth gyfrinachol wedi'i rhyddhau ar ôl y cyfarfod. Dywedodd y Swyddog Monitro, mewn o leiaf un achos, fod gwybodaeth a adroddwyd yn y wasg

ac a briodolwyd i ffynhonnell anhysbys, yn mynd yn groes i reolau cyfrinachedd y cyfarfod.

PENDERFYNWYD derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Chwefror 2025, ac yn amodol ar y sylwadau uchod, y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mawrth 2025, fel cofnodion cywir.

8 DATGANIAD POLISI TÂL 2025/26

Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol, y Cynghorydd Julie Matthews, adroddiad ar y Datganiad Polisi Tâl 2025 / 2026 (dosbarthwyd ymlaen llaw).

Dywedodd y Cynghorydd Matthews fod y Cyngor wedi ymrwymo i dryloywder yn ei bolisi tâl ar gyfer graddfa pob aelod o staff. Roedd Deddf Lleoliaeth 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi datganiadau polisi tâl. Dywedwyd wrth yr aelodau bod yn rhaid i'r datganiadau egluro polisi'r awdurdod dan sylw ynglŷn ag amryw faterion a wnelont â chyflogau ei weithlu, yn enwedig felly ei staff uwch (neu "brif swyddogion") a'i weithwyr ar y cyflogau isaf. Mae'n rhaid i'r Cyngor gymeradwyo a chyhoeddi Datganiadau Polisi Tâl bob blwyddyn.

Tynnodd y Cynghorydd Matthews sylw at bolisi tâl y Cyngor ar gyfer cyfrannu at weithlu brwdfrydig iawn a dywedodd fod y datganiad polisi tâl wedi'i argymhell i'w fabwysiadu ym mis Ebrill 2025 gan Banel Tâl Uwch Arweinyddiaeth y Cyngor, yr oedd hi wedi'i gadeirio. Nodau'r Datganiad Polisi Tâl oedd darparu pecyn tâl cystadleuol a oedd yn galluogi'r Cyngor i ddenu, cymell a chadw'r bobl ddawnus briodol sydd eu hangen i gynnal a gwella perfformiad y Cyngor ac ymateb i heriau'r dyfodol. Roedd yn nodi dull cyson o ymdrin â chyflogau, telerau ac amodau ar draws y Cyngor y mae staff a rheolwyr yn eu deall ac yn eu cymhwyso i weithlu amrywiol a oedd yn adlewyrchu'r gymuned yr oedd yn ei gwasanaethu mewn ffordd dryloyw a theg, gan gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.

Adroddodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol – Pobl (HCSSP) fod y polisi tâl blynyddol yn tueddu i aros yn weddol sefydlog o un flwyddyn i'r llall ac mai ychydig iawn o newidiadau a wnaed i ddogfen eleni.

Tynnodd y HCSSP sylw'r aelodau at baragraff 1.3 yn y polisi tâl, a oedd yn rhoi crynodeb o'r heriau ariannol arwyddocaol a wynebir gan bob cyngor yn y DU yn y tymor canolog. O ganlyniad i gostau cynyddol darparu gwasanaethau a chynnydd yng nghymhlethdod gwasanaethau statudol sy'n cael eu harwain gan y galw, mae cyllideb y Cyngor wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn.

Amlinellodd yr HCSSP y newidiadau:

- Roedd y datganiad wedi'i ddiweddararu gyda dyfarniad cyflog 2024 – 2025 ar gyfer yr holl staff.
- Nid oedd y datganiad yn cynnwys y dyfarniad cyflog ar gyfer 2025 – 2026 gan nad oedd hwnnw wedi'i gytuno arno eto. Byddai'r polisi tâl yn cael ei ddiweddararu ar ôl cytuno ar y dyfarniad cyflog a gytunwyd yn genedlaethol.
- Agwedd bwysig ar y polisi tâl oedd y perthynoledd cyflogau o fewn y Cyngor, lle'r oedd cyflog y Prif Weithredwr 6.4 gwaith cyflog gweithiwr Cyngor ar y

cyflog isaf a chyflog cyfartalog prif swyddogion yn 4.4 gwaith cyflog gweithiwr ar y cyflog isaf.

- Roedd cyflog y Prif Weithredwr 5 gwaith cyflog cyfartalog holl weithwyr y Cyngor ac roedd cyflog cyfartalog prif swyddogion 3.4 gwaith cyflog cyfartalog holl weithwyr y Cyngor.
- Roedd gofyniad na allai unrhyw reolwr sector cyhoeddus ennill mwy nag 20 gwaith cyflog gweithiwr ar y cyflog isaf yn y sefydliad, felly roedd ffigurau Sir Ddinbych ymhell o fewn y terfyn hwnnw.
- Roedd copi llawn o'r polisi ac Asesiad o Effaith ar Les wedi'u cynnwys yn y ddogfennaeth ar gyfer adroddiad heddiw.

Mewn ymateb i ymholiadau gan y Cynghorydd Martyn Hogg, eglurodd y HCSSP y dylai'r cyfeiriad at 'gyfartaledd canolrifol' ym mharagraff 7.3 o'r datganiad fod yn 'gyflog cyfartalog' ac y byddai'r ddogfen yn cael ei diweddarau. O ran sut roedd y perthnasoledd cyflogau yn cymharu â chynghorau eraill, adroddodd yr Aelod Arweiniol fod data o gynghorau eraill wedi'i ystyried, ac er nad oedd y data ganddi wrth law, o'i chof roedd y Cyngor mewn safle boddhaol yng nghanol yr ystod.

PENDERFYNWYD bod y Cyngor Llawn yn derbyn yr argymhelliad gan y Panel Tâl Uwch Arweinyddiaeth ac yn cymeradwyo'r Polisi Tâl ar gyfer 2025/26 (copi yn Atodiad A) ac yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad B) fel rhan o'i ystyriaeth.

9 ADOLYGIAD BLYNYDDOL O'R CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL A PHENODI CADEIRYDDION CRAFFU

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad ar yr Adolygiad Blynnyddol o'r Cydbwysedd Gwleidyddol a Phenodi Cadeiryddion Craffu (dosbarthwyd ymlaen llaw).

Adroddodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y pwyntiau canlynol:

- Roedd yn ofynnol i'r Cyngor ystyried o leiaf yn flynyddol sut y mae aelodaeth ei bwyllgorau yn berthnasol i faint y grwpiau.
- Roedd yr adroddiad yn cynnwys crynodeb o'r gofynion statudol sy'n cysylltu argaeledd seddi pwyllgor â maint y grwpiau gwleidyddol o fewn y cyngor.
- Roedd yr adroddiad yn amlinellu sut oedd Cadeiryddion Craffu yn cael eu penodi gan y grwpiau gwleidyddol, a'r Grŵp Ceidwadol oedd i benderfynu pwy fyddai'n cymryd swydd wag Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Perfformiad.
- Y newidiadau a fyddai'n cael eu gwneud i aelodaeth y pwyllgor o ganlyniad i ethol y Cynghorydd Arwel Roberts yn Gadeirydd y Cyngor oherwydd nad oedd Cadeirydd y Cyngor yn eistedd ar unrhyw un o'r pwyllgorau cyhoeddus.
- Roedd systemau pwyllgorau a gwefan y Cyngor wedi cael eu diweddarau i adlewyrchu'r newidiadau diweddar i'r Cabinet a byddai fersiynau wedi'u diweddarau o'r atodiadau'n cael eu rhannu gydag arweinwyr y grwpiau gan ymgorffori'r holl newidiadau i aelodaeth y pwyllgorau.

PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn nodi'r trefniadau cydbwysedd gwleidyddol i ddyrannu seddi pwyllgorau a bod Grŵp y Ceidwadwyr yn penodi i rôl Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Perfformiad.

10 PENODI AELODAU LLEYG AR GYFER Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol – Pobl (HCSSP) adroddiad (dosbarthwyd ymlaen llaw) ar benodi dau aelod lleyg i'r Pwyllgor Safonau.

Adroddodd yr HCSSP bod Panel Penodiadau, a oedd yn cynnwys cyn Gadeirydd y Pwyllgor Safonau, Julia Hughes, Y Cynghorydd Sir Bobby Feeley, Y Cynghorydd Cymuned Gordon Hughes a'r Aelod Lleyg Noela Jones, wedi cyfweid ag ymgeiswyr posib ar gyfer y ddwy swydd aelod lleyg ar Bwyllgor Safonau'r Cyngor. Yn dilyn y broses gyfweid, cytunodd Panel Penodiadau'r Pwyllgor Safonau i gynnig y ddwy swydd aelod lleyg i Kate Robertson a Maggie Griffiths, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor Llawn.

Dywedwyd wrth y Cyngor, yn amodol ar ei gymeradwyaeth o'r penodiadau, y byddai'r aelodau lleyg newydd yn derbyn sesiwn sefydlu gan y Swyddog Monitro cyn mynychu eu Pwyllgor Safonau cyntaf ym mis Mehefin.

Datganodd y Cynghorydd Mark Young gysylltiad personol oherwydd ei fod yn adnabod un o'r ymgeiswyr o wneud gwaith gwirfoddol gyda'i gilydd.

PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn penodi Kate Robertson a Maggie Griffiths yn aelodau lleyg o Bwyllgor Safonau'r Cyngor.

11 RHYBUDD O GYNNIG

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans gynnig a ddosbarthwyd ymlaen llaw fel a ganlyn:

'Mae Cyngor Sir Ddinbych yn galw ar y Prif Weinidog a Changhellor y Trysorlys i ailystyried a gwrthdroi'r penderfyniad maent wedi'i wneud yn ddiweddar ar drothwy'r Dreth Etifeddiant yn gysylltiedig â'r diwydiant amaeth. Bydd hwn yn cael effaith niweidiol ar nifer o ffermwyr, eu teuluoedd a'r genhedlaeth nesaf o ffermwyr ifainc'.

Rhoddodd y Cynghorydd Evans adroddiad am yr effeithiau sylweddol posibl ar y diwydiant amaethyddol a ffermwyr, yn lleol ac yn genedlaethol, a'r economi ehangach o ganlyniad i'r trothwy treth etifeddiant, gan gynnwys:

- Roedd angen i'r dreth fod yn deg a chael ei chysylltu'n well ag elw.
- Nid oedd gwerth tir yn cyfateb i'r incwm a gynhyrchir ohono trwy ffermio a byddai llawer o ffermwyr yn ei chael yn anodd talu'r dreth o'r incwm a gynhyrchir ganddynt. Dim ond ar ôl gwerthu'r tir y sylweddolir gwerth y tir.
- Mae'n bosibl y bydd angen i nifer o ffermwyr werthu eu tir a allai eu harwain allan o fusnes yn y pen draw.
- Dangosodd ffigurau'r llywodraeth fod 1 o bob 25 o ffermydd wedi rhoi'r gorau i ffermio yn ystod y 12 mis diwethaf oherwydd amgylchiadau eraill. Fodd bynnag, ers datganiad y Canghellor, mae astudiaeth a gynhaliwyd gan CBI Economics gyda 4,000 o ffermwyr wedi canfod fod 50% o ffermydd teuluol wedi rhoi'r gorau i fuddsoddi yn eu ffermydd a bod 43% yn bwriadu rhoi'r

gorau iddi erbyn 2026 er mwyn osgoi trethi cynyddol o ganlyniad i werth cynyddol y ffermydd.

- Nid oedd Trysorlys y DU wedi cynnal asesiad o effaith y dreth ar ein hardaloedd gwledig.
- Credai'r Trysorlys y byddai'r dreth yn effeithio ar tua 500 o ystadau mawr, ond amcangyfrifodd yr undebau amaethyddol a Chymdeithas Tir a Busnesau Gwledig y byddai'n effeithio ar rhwng 50% a 75% o ffermwyr.
- Y lefel gymharol isel o incwm y byddai'r dreth yn ei gynhyrchu.
- Ni fyddai'r dreth arfaethedig yn atal sefydliadau ariannol mawr rhag meddiannu tir fferm at ddibenion nad ydynt yn ymwneud â ffermio h.y. nid at ddibenion amgylcheddol na chynhyrchu bwyd.
- Byddai'r rhwymedigaethau y mae'r genhedlaeth nesaf o ffermwyr yn eu hwynebu ac ymlediad defnyddio tir fferm at ddibenion eraill yn peryglu diogelwch bwyd.
- Mae'r gymuned ffermio yng Nghymru yn chwarae rhan bwysig iawn yng ngoroesiad y Gymraeg. Gallai niweidio'r gymuned ffermio hefyd niweidio'r Gymraeg.
- Nid oedd llawer o denantiaethau bellach yn cael eu hadnewyddu oherwydd ofnau tirfeddianwyr ynghylch y goblygiadau treth.
- Cafodd y cynigion effaith andwyol ar ffermwyr oedrannus a phroblemau iechyd meddwl yn y gymuned ffermio.
- I lawer o ffermwyr nid oedd unrhyw opsiynau realistig ar gyfer arallgyfeirio incwm fferm na chodi prisiau cynnyrch, gyda chig eidion a defaid yn brif gynhaliaeth i'r gymuned ffermio leol.

Yn absenoldeb yr Aelod Arweiniol, y Cynghorydd Emrys Wynne, ymatebodd Arweinydd y Cyngor i'r cynnig. Nododd y Cynghorydd McLellan bod hwn yn fater lle gallai ymateb y Cynghorydd Wynne fod wedi bod yn wahanol i'w ymateb ef ei hun.

Roedd ymateb y Cynghorydd McLellan yn cynnwys y materion canlynol:

- Byddai'n ddefnyddiol gwybod faint o ffermydd y byddai hyn yn effeithio arnynt yn Sir Ddinbych.
- Roedd y dreth newydd yn cynnig trothwy llawer uwch na threth etifeddiant gyffredin ac roedd y taliadau'n llawer is hefyd.
- Roedd y newidiadau'n cynnwys eithriadau priodasol, rhyddhad lleihau treth dros 7 mlynedd a'r gallu i'r rhai sy'n etifeddu dalu'r dreth dros gyfnod o ddeng mlynedd yn ddi-log.
- Roedd diwygiadau'r Llywodraeth i ryddhad eiddo amaethyddol a busnes yn golygu y gallai un unigolyn â thir fferm drosglwyddo hyd at £1 miliwn a gallai dau unigolyn a oedd yn berchen ar fferm ar y cyd drosglwyddo hyd at £3 miliwn i ddisgynnydd uniongyrchol heb dalu unrhyw dreth etifeddiaeth.
- Roedd y 7% uchaf o ystadau posibl yn cyfrif am 40% o gyfanswm gwerth y rhyddhad eiddo amaethyddol ac roedd hynny ar ei ben ei hun yn gyfanswm o £220 miliwn. Gofynnodd y Cynghorydd McLellan i'r aelodau ystyried y defnyddiau buddiol mewn gwasanaeth cyhoeddus y gellid defnyddio hyd yn oed symiau bach o'r symiau hynny ar eu cyfer.

Cyfeiriodd y Cyngorydd Martyn Hogg at ddiffyg datganedig asesiad o effaith y newidiadau gan y llywodraeth, ac awgrymodd y gellid newid geiriad y cynnig o ailystyried a gwrthdroi'r dreth, i gynnal asesiad o effaith priodol yn seiliedig ar dystiolaeth cyn ailystyried.

Wrth gytuno â sylwadau'r Cyngorydd Hogg, pwysleisiodd y Cyngorydd Eryl Williams pa mor bwysig (mwy yng Nghymru nag yn Lloegr) yw ffermydd teuluol i ddiwydiant amaethyddol Cymru ac i gymunedau a busnesau lleol. Beirniadodd amddiffyniad yr Arweinydd o bolisi'r llywodraeth a'r ffordd y mae'r llywodraeth wedi ymdrin â'r mater a galwodd ar aelodau i gefnogi'r ardaloedd gwledig.

Dywedodd y Cyngorydd Huw Hilditch-Roberts fod ystadegau o 2017 yn awgrymu y byddai 2,000 o ffermydd yn Sir Ddinbych yn cael eu heffeithio.

Tanlinellodd y Cyngorydd Delyth Jones bwysigrwydd ffermydd teuluol yng Nghymru i ardaloedd gwledig, diogelwch bwyd a'r Gymraeg a hunaniaeth Cymru. Adroddodd fod llawer o ffermydd wedi goroesi ar incwm isel er gwaethaf gwerthoedd uchel tir ac y dylai'r llywodraeth fod wedi cynnal asesiad priodol o'r effaith ar ffermydd teuluol.

Cynigiodd y Cyngorydd Jones y dylid diwygio'r cynnig, ac eiliwyd hynny gan y Cyngorydd Huw Hilditch-Roberts, fel a ganlyn:

Mae Cyngor Sir Dinbych yn galw ar y Prif Weinidog a Changhellor y Trysorlys i ailystyried ac ymrwymo i ymgynghoriad llawn â budd-ddeiliaid ar effaith y trothwy treth etifeddiant newydd ar y diwydiant amaethyddol yng Nghymru.

Mynegodd y Cyngorydd Merfyn Parry ei gefnogaeth i'r cynnig. Ychwanegodd y Cyngorydd Brian Jones ei gefnogaeth i'r cynnig a chanmolodd ymddygiad y ffermwyr ifanc yn y protestiadau diweddar.

Cyfeiriodd y Cyngorydd Julie Matthews at y rhesymeg a'r eithriadau y tu ôl i'r newidiadau sef cael gwared ar y lloches dreth i filiwnyddion a biliwnyddion a oedd yn byw ar ffermydd bach heb dalu treth arnynt, a oedd yn effeithio ar yr incwm treth sydd ar gael i'w wario ar wasanaethau cyhoeddus. Cytunodd y Cyngorydd Matthews y dylai'r newidiadau gael eu cefnogi gan asesiadau o effaith a chael eu llywio gan ddata.

Credai'r Cyngorydd McLellan fod nod y diwygiad yn adlewyrchu'r ymgynghoriad a oedd eisoes yn digwydd rhwng y llywodraeth a'r diwydiant amaethyddol.

Gofynnodd y Cyngorydd Brian Jones am bleidlais wedi'i chofnodi ar y diwygiad, a chytunwyd ar bleidlais wedi'i chofnodi yn briodol.

O blaid y diwygiad:

Y Cyngorwyr Chamberlain-Jones, Karen Edwards, Pauline Edwards, Ellis, Elson, Chris Evans, Hugh Evans, Justine Evans, Feeley, Hilditch-Roberts, Hogg, Hughes, Brian Jones, Delyth Jones, Keddie, Mendies, Parry, Price, Roberts, Sampson, Scott, Thomas, Tomlin, Eryl Williams, Huw Williams, ac Young.

Yn erbyn y diwygiad:

Y Cyngorwyr Chard, Clewett, Heaton, Holliday, James, King, Matthews, May, McLellan, Mellor, Sandilands a Cheryl Williams.

Ymatal:

Dim.

Cymeradwywyd y diwygiad felly.

Gofynnodd y Cyngorydd Brian Jones am bleidlais wedi'i chofnodi ar y cynnig fel y'i diwygiwyd, a chytunwyd ar bleidlais wedi'i chofnodi yn briodol.

O blaid y cynnig diwygiedig:

Y Cyngorwyr Chamberlain-Jones, Karen Edwards, Pauline Edwards, Ellis, Elson, Chris Evans, Hugh Evans, Justine Evans, Feeley, Hilditch-Roberts, Hogg, Hughes, Brian Jones, Delyth Jones, Keddie, Mendies, Parry, Price, Roberts, Sampson, Scott, Thomas, Tomlin, Eryl Williams, Huw Williams, ac Young.

Yn erbyn y cynnig diwygiedig:

Y Cyngorwyr Chard, Clewett, Heaton, Holliday, James, King, Matthews, May, McLellan, Mellor, Sandilands a Cheryl Williams.

Ymatal:

Dim.

PENDERFYNWYD - Bod Cyngor Sir Ddinbych yn galw ar y Prif Weinidog a Changhellor y Trysorlys i ailystyried ac ymrwymo i ymgynghoriad llawn â budd-ddeiliaid ar effaith y trothwy treth etifeddiant newydd ar y diwydiant amaethyddol yng Nghymru.

12 RHAGLEN WAITH Y CYNGOR SIR

Cyfeiriodd y Swyddog Monitro at raglenni gwaith y Cyngor a Gweithdai'r Cyngor (dosbarthwyd ymlaen llaw) ac atgoffodd yr aelodau fod gweithdy ychwanegol yn cael ei geisio mewn perthynas â Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig.